



Presennol:

David B Jones (Cadeirydd), Philip Blaker, Isabel Nisbet, Angela Maguire-Lewis, Ellen Donovan, David Jones, Caroline Burt, Robert Lloyd Griffiths, Claire Morgan, Arun Midha, Jayne Woods, Anne Marie Duffy.

Yn Bresennol:

Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS), Joanne Nicholas (JN), Cassy Taylor (CT), Emyr George (EG) – eitemau 4 a 9, Kerry Price (KP) – eitem 6, Kate Welsher (KW) – eitem 7, Tom Anderson (TA) – eitem 10, Jo Valentine (JV) – Llywodraeth Cymru. Kirsty Williams, Y Gweinidog Addysg – eitem 4.

Ymddiheuriadau:

Dim.

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant, Papurau i'w Nodi

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- 1.2. Ceisiwyd datganiadau o fuddiant. Nododd RLG ei fod, yn ei rôl gyda Sefydliad y Cyfarwyddwyr, wedi cael cais i gyfrannu at fwrdd newid Llywodraeth Cymru mewn perthynas â sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Hysbysodd RLG y Bwrdd ei fod yn disgwyl cadarnhad ynglŷn â'r hyn a oedd yn ofynnol.

2. Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2019 a'r Materion sy'n Codi

- 2.1. Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2019 yn gofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar fân newidiadau. Bydd y cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru ar ôl iddynt gael eu cyfieithu.
- 2.2. Cafodd y Bwrdd y diweddaraf am y camau gweithredu yn y cofnodion – roedd pob un ohonynt wedi'u cwblhau.
- 2.3. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr aelodau unrhyw fater yr oeddynt yn dymuno'i drafod ar sail y papurau gwybodaeth.
- 2.4. Gofynnodd y Bwrdd am gael trafod papur QWB25.17 – Rheoli Risg a phapur QWB25.21 – Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystod y cyfarfod. Cytunwyd y dylid ymdrin â'r papurau hyn fel Unrhyw Fater Arall.

Crynodeb:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion.
- ii. Nododd y Bwrdd fod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

3. Y Diweddaraf gan y Cadeirydd

- 3.1. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Bwrdd fod sesiwn graffu flynyddol Cymwysterau Cymru yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi mynd yn dda. Diolchodd y Cadeirydd i Philip Blaker (PB) am ei gyfraniad. Nododd PB fod Cymwysterau Cymru wedi cynnal sesiwn galw heibio ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn ystod yr wythnos cyn cynnal y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a bod y sesiwn hon wedi bod yn fuddiol.
- 3.2. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Bwrdd y byddai'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor rhwng Gorffennaf 2020 - Gorffennaf 2021 yn cael eu dosbarthu. Cyfeiriodd hefyd at gyfarfodydd un-i-un aelodau'r Bwrdd a chadarnhaodd bod disgwyl iddynt ddod i ben erbyn diwedd mis Chwefror ac y byddai'n adrodd yn ôl i'r Bwrdd ym mis Mawrth.
- 3.3. Diolchodd y Bwrdd i'r Cadeirydd am yr adroddiad a nodwyd y diweddaraf.

CAM GWEITHREDU 01 – JN i ddosbarthu'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor rhwng Gorffennaf 2020 - 21

CAM GWEITHREDU 02 – Y Cadeirydd i roi adborth i aelodau'r Bwrdd yn dilyn y cyfarfodydd un-i-un

Crynodeb:

- i. Nododd y Bwrdd ddiweddariad y Cadeirydd.

4. Y Gweinidog Addysg

- 4.1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg, i gyfarfod y Bwrdd. Cyflwynodd y Gweinidog sylwadau agoriadol a diolchodd i Cymwysterau Cymru am ei waith a'i gefnogaeth mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd. Gofynnodd y Gweinidog am sylwadau a chwestiynau gan aelodau'r Bwrdd. Roedd y meysydd trafod yn cynnwys prentisiaethau, PISA, hyder y cyhoedd, y cwricwlwm newydd (newid diwylliant mewn ysgolion, gwybodaeth gan y sector busnes, y defnydd o dechnoleg a brandio TGAU), dulliau mesur perfformiad a sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.
- 4.2. Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am fynychu cyfarfod y Bwrdd.

5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

- 5.1. Cyflwynodd Philip Blaker (PB) adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol, gan nodi bod yr adroddiad yn ymdrin ag eitemau nad ydynt yn ymddangos yn unman arall ar agenda'r Bwrdd.
- 5.2. *Llythyr dyrannu cyllid* – Rhoddodd PB wybod i'r Bwrdd fod llythyrau cyllid drafft wedi'u derbyn, ynghyd â rhai newidiadau a awgrymwyd i'r Ddogfen Fframwaith. Nododd PB fod y dasg o fynd trwy'r rhain yn cael ei gwneud gyda Llywodraeth

Cymru a'i fod yn gobeithio y byddent yn barod i gael eu rhannu gyda'r Bwrdd erbyn y cyfarfod nesaf.

- 5.3. *Caffael gwasanaethau ymgynghori* – Aeth PB ati i atgoffa'r Bwrdd fod ymarfer caffael wedi cael ei gynnal er mwyn cyflogi gwasanaeth ymgynghori i ystyried effeithlonrwydd gwaith rheoleiddio Cymwysterau Cymru. Rhoddodd PB wybod i'r Bwrdd fod pedwar cais wedi cael eu derbyn, ond nad oedd yn ymarferol i'r un ohonynt barhau â'r gwaith, naill ai gan eu bod wedi methu â bodloni ein holl ofynion neu oherwydd gwerth am arian. O ganlyniad, bydd dull gwahanol yn cael ei roi ar waith, a fydd yn cynnwys ymarfer mewnol.
- 5.4. *Ymgysylltu Allanol* – Rhoddodd PB wybod i'r Bwrdd fod gweithgareddau ymgysylltu allanol yn cynyddu. Roedd Cymwysterau Cymru wedi trefnu dwy gynhadledd ar gyfer Swyddogion Arholiadau, un yng Ngogledd Cymru ar 21 Ionawr ac un yn Ne Cymru ar 28 Ionawr. Bydd y Gweinidog yn mynychu'r gynhadledd a gynhelir yn Ne Cymru.
- 5.5. *Iechyd a Gofal Cymdeithasol* – Rhoddodd PB wybod fod cynnydd wedi'i wneud o ran cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a bod y Cymwysterau Lefel 4 a Lefel 5 mewn Arwain a Rheoli wedi cael eu cymeradwyo. Cyfeiriodd PB at y cymwysterau Lefel 3 ac aeth ati i atgoffa'r Bwrdd fod y manylebau ar gyfer Lefel 3 (UG/Safon Uwch/Tystysgrif a Diploma) wedi bod ar gael i'r cyhoedd ers mis Tachwedd 2019; fodd bynnag, roedd oedi wedi bod o ran cymeradwyo'r deunyddiau asesu sampl. Cafodd aelodau'r Bwrdd y diweddaraf am y sefyllfa a chawsant wybod y dylai'r deunyddiau asesu sampl ar gyfer Safon Uwch gael eu cymeradwyo erbyn diwedd mis Chwefror. Roedd y deunyddiau asesu sampl allanol ar gyfer tystysgrif Lefel 3 wedi cael eu cadarnhau sawl wythnos yn gynharach, ac roedd gwaith ar y gweill ar y deunyddiau asesu sampl mewnol. Byddai hyn yn gadael y cymwysterau arbenigaeth lefel 4 yn weddill. Roedd y rhain wedi newid yn sylweddol, ac roedd gwaith ar y gweill gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Nodwyd bod y cymwysterau Lefel 4 hyn yn newydd, a bod yr oedi hwn yn arwain at risg isel gan na fyddent yn disodli cymwysterau eraill.
- 5.6. Croesawodd PB gwestiynau gan y Bwrdd yn ymwneud â'r papur. Gofynnodd y Bwrdd am wybodaeth bellach ynglŷn â'r ymchwiliad i gamymddwyn y cyfeiriwyd ato. Rhoddodd PB sicrwydd i'r Bwrdd, gan gynnig trosolwg o'r gwaith a oedd ar y gweill. Rhoddodd wybod i'r Bwrdd y byddai diweddariadau pellach yn cael eu rhoi i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoleiddio fel y bo'n briodol.

Crynodeb:

- i. Nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol, gan ddiolch iddo am ei ddiweddariad.

6. Adroddiad ar Gyllideb a Chynllun Gweithredol 2019-20

Adroddiad ar y Cynllun Gweithredol

- 6.1. Cyflwynodd Joanne Nicholas (JN) yr adroddiad gan grynhoi'r sefyllfa ar ddiwedd mis Tachwedd yn erbyn y cynllun gweithredol. Roedd tri o'r blaenoriaethau gweithredol â statws gwyrdd ac roedd un flaenoriaeth weithredol (Diwygio) â statws oren. Rhoddwyd statws oren i'r flaenoriaeth hon gan fod nifer o is-flaenoriaethau o fewn y flaenoriaeth Diwygio â statws coch neu oren. Roedd pob un ond tair o'r is-flaenoriaethau â statws gwyrdd. Dyma'r blaenoriaethau oren a choch:
- Bagloriaeth Cymru – ar gyfer CA4 roedd y gwaith hwn yn ddibynnol iawn ar ddiwygio'r cwricwlwm, ac felly penderfynwyd ailgynllunio'r cam ymgynghori ar gyfer y flwyddyn nesaf fel y gellir ei gydlynu ag ail gam yr ymgynghoriad ar ddiwygio'r cwricwlwm.
 - Adolygiad Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu – roedd yr amcan yn cwmpasu datblygiad cydamserol y meini prawf cymeradwyo ar gyfer TGAU ac UG/Safon Uwch mewn Technoleg Ddigidol, ond penderfynwyd datblygu'r TGAU yn gyntaf cyn datblygu'r UG/Safon Uwch.
 - Adolygiad Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant – roedd cynnydd wedi'i wneud ac roedd amserlenni cymeradwyo mewn lle, ond roedd y rhain yn hwyrach na'r disgwyl.
- 6.2. Gofynnodd y Bwrdd a ddylai'r flaenoriaeth yn ymwneud ag Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant fod wedi cael statws coch, o gofio am sawl mis y bu â statws oren. Rhoddodd PB wybod i'r Bwrdd fod y flaenoriaeth wedi bod yn agos at gael statws coch, ond bod cynnydd da wedi'i wneud ac y credir bod statws oren yn briodol.

Adroddiad Ariannol

- 6.3. Cyflwynodd Kerry Price (KP) yr adroddiad cyllid yn crynhoi'r sefyllfa fel yr oedd ddiwedd mis Rhagfyr. Aeth KP ati i atgoffa aelodau'r Bwrdd fod cyllideb graidd o £8.392m wedi'i phennu ar gyfer 2019-20, a nodwyd ar y pryd y byddai'n ofynnol cael iteriadau rhagamcanol pellach wrth i gynlluniau gwariant ar gyfer diwygio'r cwricwlwm gael eu cadarnhau.
- 6.4. Nododd KP fod y rhagolygon gwariant diweddaraf wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Adnoddau, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Bwrdd. Aeth KP ati i atgoffa aelodau'r Bwrdd eu bod wedi cael eu hysbysu yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd ynghylch ystod gwariant o rhwng £8.1 ac £8.57m.
- 6.5. Cadarnhaodd KP y disgwylid i ystod y sefyllfa alldro, ar ddiwedd mis Rhagfyr 2019, fod rhwng £8.1m (rhagolwg isel) ac £8.497m (rhagolwg uchel). Byddai'r rhagolwg uchel angen £107k yn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru tuag at ariannu diwygio'r cwricwlwm. Nodwyd bod trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru.
- 6.6. Nododd KP y disgwylid i'r gwariant disgwylidig dros chwarter olaf 19-20 fod rhwng £2.3m a £2.58m, sy'n cyfateb i rhwng 28% a 30% o gyfanswm gwariant y flwyddyn. Roedd hyn yn llai, ac yn rhagori ar flynyddoedd blaenorol pan welwyd

bod lefel y gwariant yn y chwarter olaf yn cyfateb i oddeutu 35% o gyfanswm y gwariant.

- 6.7. Rhoddodd KP y diweddaraf ynghylch cyllideb 2020-21. Dywedodd wrth y Bwrdd fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'i chyllideb ddrafft ym mis Rhagfyr ac wedi cadarnhau mai'r bwriad oedd rhoi £9.248m i Cymwysterau Cymru, yn cynnwys cyllid ychwanegol tuag at ein gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer cymwysterau'r cwricwlwm newydd. Nododd KP fod hyn yn cyd-fynd â'r disgwyliadau.
- 6.8. Gofynnodd y Bwrdd a oedd Cymwysterau Cymru wedi cael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru y gellir dwyn cronfeydd ymlaen. Dywedodd KP na dderbyniwyd cadarnhad o'r fath. Nododd fod y cronfeydd wedi'u clustnodi ar gyfer y gost o gaffael a gweithredu system Gyllid ac AD newydd. Os na roddir caniatâd, bydd yn rhaid ailystyried y prosiect hwn neu bydd angen i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid gwahanol.

Crynodeb:

- i. Nododd y Bwrdd y sefyllfa ar ddiwedd mis Tachwedd yn erbyn y cynllun gweithredol.
- ii. Nododd y Bwrdd adolygiad cyllideb mis Rhagfyr.

7. Arolwg Pobl

- 7.1. Cyflwynodd Kate Welsher (KW) ganlyniadau'r pedwerydd arolwg pobl blynyddol. Nododd y Bwrdd fod lefel yr ymgysylltu'n gadarnhaol, sef 76% (cynnydd o 4% ers canlyniadau 2018) ac roedd yr aelodau'n falch o weld cynnydd o ran sgoriau cadarnhaol mewn meysydd fel arwain, cymryd camau, diwylliant sefydliadol, fy nhîm ac ymgysylltu â gweithwyr.
- 7.2. Awgrymodd aelodau'r Bwrdd y canolbwyntiwyd mwy ar ddeall y 'sgoriau niwtral'. Hefyd, gofynnodd aelodau'r Bwrdd beth oedd safle Cymwysterau Cymru mewn perthynas â sefydliadau eraill. Cadarnhaodd KW nad oedd data meincnodi 2019 ar gael eto.
- 7.3. Bu aelodau'r Bwrdd yn trafod adnoddau a llwyth gwaith, y cymorth allanol sydd ar gael i gynorthwyo gweithwyr, a phwysigrwydd cyfathrebu effeithiol.
- 7.4. Dywedodd KW wrth y Bwrdd fod y Bwrdd Rheoli wedi cytuno ar gamau gweithredu a oedd yn canolbwyntio ar hyrwyddo cyfleoedd dysgu a datblygu, cyflwyno'r system perfformiad newydd ynghyd â'r hyfforddiant adborth, sefydlu gweithgor Band 3, a gwerthuso'r gwaith o ad-drefnu a gwella cyfathrebu mewnol. Bydd y camau gweithredu hyn yn cael eu monitro trwy'r cynllun gweithredol.
- 7.5. Ar y cyfan, roedd y Bwrdd o'r farn ei fod yn ganlyniad da iawn, yn enwedig gan fod y sefydliad wedi cael ei ad-drefnu yn ystod y flwyddyn. Roedd y Bwrdd yn falch o weld bod nifer o'r camau a gymerwyd yn dilyn arolwg 2018 wedi bod yn effeithiol.

Crynodeb:

- i. Nododd y Bwrdd ganlyniadau hynod gadarnhaol Arolwg Pobl 2019, a'r cynnydd a wnaed ers yr arolwg blaenorol.

8. Cyfres Arholiadau'r Gaeaf

- 8.1. Rhoddodd Jo Richards (JR) y diweddaraf ynglŷn â chyfres arholiadau gaeaf 2019-20. Ailadroddwyd gwybodaeth a oedd eisoes wedi'i thrafod yn fanwl yn y Pwyllgor Rheoleiddio ym mis Rhagfyr. Nododd JR fod CBAC wedi cyhoeddi canlyniadau cyfres Tachwedd 2020 ar 16 Ionawr 2020, a bod trosolwg o'r canlyniadau a datganiad i'r wasg wedi cael eu rhoi i'r Bwrdd. Cadarnhaodd JR y byddai canlyniadau cyfres Ionawr yn cael eu cyhoeddi ar 5 Mawrth 2020.
- 8.2. Cyflwynodd JR drosolwg manwl o ganlyniadau cyfres Tachwedd 2019, gan dynnu sylw at y canlyniadau da mewn TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd. Ar gyfer TGAU Mathemateg, llwyddodd 69.0% o ddysgwyr 16 oed i gael graddau A*-C mewn cymhariaeth â 68.9% yn ystod y Tachwedd blaenorol; ac ar gyfer TGAU Mathemateg-Rhifedd, llwyddodd 62% o ddysgwyr 16 oed i gael graddau A*-C mewn cymhariaeth â 59.5% yn ystod Tachwedd 2018. Rhoddodd JR wybod i'r Bwrdd fod y gwelliant hwn, yn ôl pob tebyg, i'w briodoli i'r ffaith fod cyfres Tachwedd 2019 wedi'i defnyddio ar gyfer mathemategwyr uwch eu gallu. Trafododd y Bwrdd yr effaith y gall hyn ei gael ar ganlyniadau cyfres arholiadau'r haf.
- 8.3. Diolchodd y Bwrdd i JR am ei diweddariad.

Crynodeb:

- i. Nododd y Bwrdd y diweddaraf ynglŷn â chyfres arholiadau'r gaeaf. Hefyd, nododd y Bwrdd fod y Pwyllgor Rheoleiddio wedi trafod yr eitem yn fanwl yn ei gyfarfod ar 19 Rhagfyr 2019.

9. Cymwys ar gyfer y Dyfodol – Cyfraniad y Bwrdd yn ystod y Cam Nesaf

- 9.1. Ymunodd Emyr George (EG) â'r cyfarfod.
- 9.2. Aeth EG ati i atgoffa'r Bwrdd o'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r ymgynghoriad Cymwys ar gyfer y Dyfodol. Roedd yr ymgynghoriad ar waith a byddai'n dod i ben ar 7 Chwefror. Cadarnhaodd EG y byddai canfyddiadau'r ymgynghoriad a'r canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, ac y byddai yna gyfle i ystyried y cyngor drafft ar gyfer Llywodraeth Cymru.
- 9.3. Rhoddodd EG wybod i'r Bwrdd fod y gwaith cynllunio manwl ar gyfer ail gam y prosiect wedi cael ei wneud, a bod cyfraniadau a phenderfyniadau gofynnol y Bwrdd wedi cael eu hymgorffori yn y cynllun. Aeth EG ati i grynhai cyfraniadau'r Bwrdd fel a ganlyn:

- Mai 2020 – Gweithdy'r Bwrdd yn ymwneud â chwmpas a ffocws yr ymgynghoriad ynghylch amrediad y cymwysterau yn y dyfodol
- Gorffennaf 2020 – Ystyried dulliau posibl o sicrhau argaeledd cymwysterau allweddol yn y dyfodol
- Medi 2020 – Cymeradwyo cynigion drafft a meysydd cwestiynau'r ymgynghoriad, yn cynnwys asesiadau effeithiau drafft
- Tachwedd 2020 – Adolygu'r cwestiynau a'r ymgynghoriad terfynol. Cadarnhau'r dull ar gyfer sicrhau'r prif agweddau ar amrediad y cymwysterau yn y dyfodol, yn cynnwys cytuno i roi unrhyw weithgareddau caffael cychwynnol ar waith
- Mawrth 2021 – Rhannu crynodeb cychwynnol o'r ymatebion
- Mai 2020 – Cymeradwyo canlyniadau a phenderfyniadau'r ymgynghoriad, ynghyd ag unrhyw gyngor arfaethedig ar gyfer Llywodraeth Cymru.

9.4. Gofynnodd y Bwrdd am gael eglurhad ynglŷn â'r effaith bosibl y gallai etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2021 eu cael ar y prosiect. Cadarnhaodd EG fod cynllun y prosiect wedi'i ddatblygu er mwyn osgoi gorgyffwrdd gyda chyfnod yr etholiad. Nodwyd hefyd y byddai Cymwysterau Cymru, fel corff annibynnol, yn bwrw ymlaen ag adolygu cymwysterau. Nododd y Bwrdd fod yr amserlen hon yn un synhwyrol sy'n adlewyrchu annibyniaeth y sefydliad.

9.5. Diolchodd y Bwrdd i EG am y cyflwyniad.

Crynodeb:

- i. Cafodd y Bwrdd y diweddaraf ynglŷn â'r cynllun yn ymwneud â chyfraniadau a phenderfyniadau'r Bwrdd mewn perthynas â'r prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol.

10. PISA

10.1. Ymunodd Tom Anderson (TA) â'r cyfarfod. Rhoddodd wybod i'r Bwrdd fod y canlyniadau PISA wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Rheoleiddio yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2019, ac yr awgrymwyd bod angen penderfyniad gan y Bwrdd.

10.2. Cafodd y Bwrdd drosolwg o'r canlyniadau PISA. Er i aelodau'r Bwrdd gydnabod bod yna fân welliannau mewn perthynas â Chymru, nid oedd y cynnydd yn ystadegol arwyddocaol. Nododd y Bwrdd fod diwylliant, gallu o ran darllen, a'r modd y cafwyd y sampl, wedi effeithio ar y canlyniadau. Atgoffwyd y Bwrdd na ellir cymharu canlyniadau PISA â chanlyniadau TGAU.

Crynodeb:

- i. Derbyniodd a nododd y Bwrdd ganlyniadau PISA 2019.

11. Cynllun Dirprwyo

11.1. Cyflwynodd JN y papur. Roedd y papur yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd i ddiwygio'r Cynllun Dirprwyo. Esboniodd JN nad oedd y pŵer i gyflwyno Cosb

Ariannol, tan yn ddiweddar, ar gael i Cymwysterau Cymru ac na chynhwyswyd hyn felly yng nghynllun dirprwyo'r Bwrdd.

- 11.2. Aeth JN ati i atgoffa'r Bwrdd fod y pŵer i gyflwyno Cosb Ariannol wedi'i roi ar 12 Ebrill 2019, pan gymeradwywyd y Rheoliadau Cosbau Ariannol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Argymhelliaid JN oedd y dylid neilltuo cymeradwyaeth o ran cyflwyno Cosb Ariannol, a gwerth y gosb, i'r Bwrdd. Nodwyd bod Adran 38 y Ddeddf yn cynnig cyfle i gorff dyfarnu apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf ac felly fe fyddai yna ganlyniadau ariannol i Cymwysterau Cymru.
- 11.3. Rhoddodd JN wybod i'r Bwrdd na fydd yr adeg y cyflwynir cosbau ariannol, efallai, yn cyd-fynd ag amserlen cyfarfodydd y Bwrdd, ac felly mae'n bosibl y bydd angen gwneud penderfyniadau y tu allan i'r pwyllgor.
- 11.4. Trafododd a chymeradwyodd y Bwrdd ddiwygio'r Cynllun Dirprwyo.

Crynodeb:

- i. Aeth y Bwrdd ati i gymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Cynllun Dirprwyo'r Bwrdd.

12. Prentis TG

- 12.1. Cyflwynodd Alison Standfast (AS) y papur yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd i gynyddu'r 'cyfrif pennau' parhaol ar gyfer Cymwysterau Cymru er mwyn gallu creu prentis Datblygu Meddalwedd TG.
- 12.2. Trafododd y Bwrdd y cynnig, gan ystyried gofynion y prentis o ran cymorth a mentora. Rhoddwyd sicrwydd bod yna gapasiti o fewn y sefydliad i ddarparu hyn. Roedd y Bwrdd o'r farn fod cynnig prentisiaethau yn gam cadarnhaol i'r sefydliad, felly cymeradwyodd y Bwrdd y cynnig i gynyddu'r 'cyfrif pennau' er mwyn gallu creu rôl prentis Datblygu Meddalwedd TG.

Crynodeb:

- i. Aeth y Bwrdd ati i gymeradwyo'r cynnydd yn y 'cyfrif pennau' er mwyn gallu creu rôl prentis Datblygu Meddalwedd TG.

13. Diwrnod Datblygu'r Bwrdd ym mis Mawrth

- 13.1. Rhoddodd y Cadeirydd y diweddaraf i'r Bwrdd ynglŷn â Diwrnod Datblygu'r Bwrdd a gynhelir ym mis Mawrth, gan gynnig y dylid canolbwyntio ar strategaeth ar gyfer y dyfodol. Croesawodd y Cadeirydd sylwadau gan y Bwrdd mewn perthynas â chynnwys penodol.
- 13.2. Cyflwynodd y Bwrdd sylwadau'n ymwneud â'r diwrnod, yn cynnwys amser i fyfyrion ar y cynnydd yn erbyn y strategaethau presennol, cyfle i ystyried yr amgylchedd presennol a chyfleoedd yn y dyfodol.

Crynodeb:

- i. Cyflwynodd y Bwrdd sylwadau'n ymwneud â Diwrnod Datblygu'r Bwrdd a gynhelir ym mis Mawrth.

14. Adroddiad y Pwyllgor Rheoleiddio

- 14.1. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y diweddaraf ynglŷn â'r prif feysydd busnes a ddeilliodd o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 19 Rhagfyr 2019. Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2019 a chofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr eu cynnwys ym mhecyn gwybodaeth y Bwrdd.
- 14.2. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn y Pwyllgor ar 19 Rhagfyr yn ymwneud â'r Strategaeth Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg, a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Bwrdd ei chymeradwyo ym mis Mawrth 2020. Roedd eitemau eraill yn cynnwys cymeradwyo'r Amodau Cydnabod Safonol, cymeradwyo'r Polisi Capió Ffioedd, a'r diweddaraf ynglŷn â chyfres arholiadau'r gaeaf a PISA.

15. Unrhyw Fater Arall

- 15.1. Rhoddodd IN y diweddaraf ynglŷn â'r Grŵp Cyngori ar Ymchwil. Hysbyswyd y Bwrdd fod y grŵp yn effeithiol a'i fod yn canolbwyntio ar wneud yn fawr o'r gwaith a'r gwersi a ddysgwyd yn sgil ymchwil a oedd wedi'i chynnal mewn mannau eraill. Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, bu'r grŵp yn ystyried cynllun yr ymchwil, ymgysylltu â dysgwyr wrth asesu, a'r defnydd o ddadansoddi gweithrediad asesiadau.
- 15.2. Cyfeiriodd y Bwrdd at bapur QWB25.17 (Rheoli Risg), gan nodi pwysigrwydd risg R22 (efallai y bydd y symud cynyddol tuag at asesu allanol mewn cymwysterau Addysg Bellach amser llawn, a ddatblygir i ddiwallu gofynion yn Lloegr, yn lleihau argaeledd asesu cyfrwng Cymraeg). Cadarnhaodd Cassy Taylor (CT) fod cynigion rhyngwladol yn cael eu hystyried, ond cydnabu fod hyn yn risg sylweddol o hyd. Hefyd, trafododd y Bwrdd risg FCS25 yn ymwneud â chysylltiadau â'r tîm noddi. Nododd y Bwrdd y nifer helaeth iawn o risgiau a gyflwynwyd yn y papur a gofynnodd i'r Weithrediaeth ystyried lleihau'r nifer ar y rhestr a gyflwynir i'r Bwrdd.
- 15.3. Cyfeiriodd y Bwrdd at bapur QWB25.21 (cofnodion drafft y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 1 Tachwedd). Gofynnodd y Bwrdd am wybodaeth bellach yn ymwneud â sgôr sicrwydd yr archwiliad cyfathrebu. Rhoddodd PB wybod i'r Bwrdd fod yr archwiliad wedi cyflwyno argymhellion yn ymwneud â chynllunio ar gyfer cyfathrebu. Rhoddodd PB sicrwydd i'r pwyllgor fod gwaith ar y gweill i ddelio â'r argymhellion a dywedodd y bydd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Strategol yn mynychu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 24 Chwefror i roi'r diweddaraf am y cynnydd.
- 15.4. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu ac am gyfrannu at y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:00

